OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 2709

# Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

## RHAN 7

## DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU I BWYLLGORAU A'R CWRICWLWM

**Dirprwyo swyddogaethau**

**22.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i awdurdod ddirprwyo'r swyddogaethau a grybwyllir ym mharagraff (2) sy'n ymwneud ag uned i'r pwyllgor, ynghyd ag unrhyw bwerau sydd gan yr awdurdod sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

(2) Dyma'r swyddogaethau—

(a) cynnal yr uned;

(b) swyddogaethau'r awdurdod o dan baragraff 6(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996 (cwynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm);

(c) swyddogaethau'r awdurdod o dan adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**) (cyfrifoldeb dros ddisgyblu); a

(d) mewn cysylltiad ag athrawon a gyflogir gan yr awdurdod i weithio yn yr uned, swyddogaethau'r awdurdod o dan Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011(**2**).

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r canlynol—

(a) swyddogaethau'r awdurdod o dan—

(i) adran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**3**) (pŵer i ymyrryd),

(ii) rheoliadau a wneir o dan adran 31 o Ddeddf Addysg 2002(**4**) (rheoli mangreoedd ysgol), a

(iii) adran 29(5) o Ddeddf Addysg 2002 (cyfarwyddyd gan awdurdod mewn perthynas ag iechyd a diogelwch);

(b) unrhyw bŵer i benodi neu ddiswyddo athrawon a staff nad ydynt yn addysgu yn yr uned, neu eu hatal dros dro;

(c) unrhyw bŵer i wario unrhyw swm o arian a neilltuwyd gan yr awdurdod at ddibenion yr uned.

(**1**) 2006 p. 40.
(**2**) O.S. 2011/2940 (Cy. 316).
(**3**) 2013 dccc 1.
(**4**) 2002 p. 32.

**Cwricwlwm**

**23.** Rhaid i'r awdurdod, y pwyllgor a'r athro neu'r athrawes â gofal am uned (gan weithio ar y cyd) wneud, ac adolygu o bryd i'w gilydd, ddatganiad polisi ysgrifenedig mewn perthynas â'r cwricwlwm ar gyfer yr uned.